O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2011 Rhif 111 (Cy. 28)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffyrdd yr A4060 a'r A465 (Dowlais Top, Merthyr Tudful) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2011

Gwnaed	*21 Ionawr 2011*
Yn dod i rym	*31 Ionawr 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Man i'r Dwyrain o Abercynon - Man i'r Dwyrain o Ddowlais (yr A4060) a Chefnffordd Castell-nedd – Y Fenni (yr A465) (y cyfeirir atynt yma wedi hyn fel "y cefnffyrdd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig neu ei wahardd ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd oherwydd gwaith sy'n cael ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall, yn gwneud y Gorchymyn hwn**(2)**.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 31 Ionawr 2011 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A4060 a'r A465 (Dowlais Top, Merthyr Tudful) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2011.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 19:30 o'r gloch ar 31 Ionawr 2011 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn derfynol;

ystyr "y darnau o'r cefnffyrdd" ("*the lengths of the trunk roads*") yw'r darnau hynny o gefnffyrdd yr A4060 a'r A465 yn Nowlais Top ym Mwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.